# CYNGOR CYMUNED BUAN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd nos Iau, 14 Gorffennaf, 2022
Yn Talybont, Rhydyclafdy

Presennol:

Cynghorwyr:

Hughie Williams – Cadeirydd

Catherine Hughes
Tesni Jones
Nia W. Jones
Einir Lewis
Phil Roberts

Cynghorydd Sirol – Anwen Davies

Nerys Williams - Clerc

## 1. Ymddiheuriadau –

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Hughie Williams.

Cafwyd ymddiheuriad gan:

Dafydd Ll. Williams

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cadarnhawyd cofnodion 09 Mehefin, 2022 yn gywir gan y Cynghorydd Tesni Wyn Jones ac fe eiliwyd gan y Cynghorydd Phil Roberts.

## 3. Materion yn codi o'r cofnodion:-

*Gor-yrru ym Mhentref Rhydyclafdy* –

Ni chafwyd ymateb i'r e-byst diweddar at yr Adran Drafnidiaeth yn gwahodd yr Heddlu a Ganbwyll i fynychu'r cyfarfod heno. Penderfynwyd ail godi'r mater eto ym mis Medi.

4. Materion gohebiaeth

Derbyniwyd e-bost gan **Glerc Cyngor Cymuned Llanbedrog** yn holi beth oeddem ni fel Cyngor yn ei godi ar gladdedigaethau a.y.b. Nid yw hyn yn berthnasol i Buan oherwydd nad oes gennym fynwentydd sydd o dan reolaeth y Cyngor Cymuned. Y Clerc i anfon atynt i gadarnhau hyn.

Derbynwwyd e-bost **gan Glerc Cyngor Pistyll** yn dweud iddynt dderbyn cwynion gan eu trigolion am ddiogelwch y groesffordd ym Moduan (ger Ysgol Pentreuchaf). Gan nad yw y groesffordd o dan sylw o fewn ffiniau Cyngor Cymuned Buan penderfynwyd anfon yr ebost ymlaen i Glerc Cyngor Llannor gan nodi ein bod ninnau ym Muan yn cefnogi.

5. Materion Ariannol

Derbyniwyd cysoniad banc am y cyfnod 4 Mehefin i 3 Gorffennaf, 2022 yn gywir yn y swm o £5279.67c.

Y sieciau isod wedi cael eu harwyddo gan y Cynghorwyr Tesni Jones a Phil Roberts ar ddiwedd y cyfarfod.

| | | |
|---|---|---|
| Ashley Hughes (Inc i'r printer) | £88.78 | Siec Rhif 200675 |
| Nerys Williams | £111.79 | Siec Rhif 200676 |
| Cyllid a Thollau (Mis 4) | £28.00 | Siec Rhif 200677 |

6. Materion Cynllunio

Cais Cynllunio Rhif**: C22/0575/33/CR - Cefn Iwrch, Rhydyclafdy, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8TT**

Bwriad: Amnewid ffenestr bren gyda un o ddyluniad gwahanol.

Trafodwyd y cais uchod a penderfynwyd cefnogi.

**Cais Cynllunio Rhif: C22/0550/33/DT - Carneddol, Rhydyclafdy, Pwllheli, Gwynedd, LL53 7PT**

Addasiadau ac estyniad i dŷ presennol.

Mi 'roedd yn amlwg bod y cais uchod wedi ei wrthod cyn i'r Cyngor Cymuned gael y cyfle i roi sylwadau. Rhaid felly fydd disgwyl am gynllun diwygiedig.

7. Datgan Diddordeb

Neb yn datgan diddordeb.

8. Unrhyw fater arall

***Barbio'r ffyrdd*** - 'Roedd llawer o'r Cynghorwyr yn cwyno bod safon barbio y lonydd yn ddifrifol o wael eleni. Cytunodd y Cynghorydd Sirol, Mrs. Anwen Davies i gysylltu â'r adran briodol i drafod y mater.

***Archwiliad Mewnol –*** Derbyniwyd cadarnhad gan Cyngor Gwynedd bod yr archwiliad ariannol mewnol wedi ei gwblhau yn llwyddiannus. Anfonir y cyfrifon yn awr at yr Archwiliwyr Allanol. Cafwyd yn gywir yn y cyfarfod yma.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 p.m.

12. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf -

Nos Iau, 8 fed o Fedi, 2022 am 7.30 p.m. ***Bydd y Clerc yn cysylltu â phawb i gadarnhau y lleoliad cyn y cyfarfod nesaf.***